Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

# *Llawlyfr Ymwelwyr*

## Y CYFARFODYDD BLYNYDDOL

Caerdydd a'r Cylch

Yng

Nghaerdydd

Mehefin 27-29, 2002

Ynghyd â

Braslun o Hanes Diweddar
yr Eglwysi sydd yn gwahodd

**UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG**

*Llywydd*: Y Parchg. Ioan Wyn Gruffydd

*Is-lywydd*: Y Parchg. Ddr Geraint Tudur

*Cyn-lywydd*: Y Parchg. Derwyn Morris Jones

*Cadeirydd y Cyngor*: Miss Eurwen Richards

*Ysgrifennydd Cyffredinol*: Y Parchg. Dewi Myrddin Hughes

*Ysgogydd Cenhadol*: Y Parchg. Hmar Sangkhuma

*Ysgrifennydd Gweinyddol*: Miss Eirwen Ann Williams

*Cyfarwyddwr Addysg a Hyfforddi yn y Gogledd:* Y Parchg. Athro Euros Wyn Jones

*Cyfarwyddwr Addysg yn y De*: Y Parchg. Athro Aled ap Gwynedd

*Trysorydd*: Mr Neville Hughes

**Swyddogion Pwyllgor Lleol Caerdydd a'r Cylch**

*Cadeirydd*: Y Parchg. Ddr R Alun Evans

*Ysgrifennydd*: Dr Bethan Jones

*Trysorydd*: Mrs Heulwen Cooper

*Is-bwyllgor llety a lluniaeth*: Mrs Margaret Davies, Mrs Marian Donovan, Mrs Elin Smith, Miss Eirian Thomas

*Trefnyddion y cyflwyniad:* Mr Arfon Jones a Miss Carys Davies

*Golygydd y llyfryn*: Y Parchg. W. Eifion Powell

## CYFLWYNIAD GOLYGYDDOL

Mae saith o eglwysi'n cydweithio i groesawu'r Undebwyr i Gaerdydd. Yr eglwysi hynny (yn nhrefn y Wyddor) yw: Eglwys Annibynnol Gymraeg y Barri; Eglwys Ebeneser, Caerdydd; Eglwys Minny Street, Caerdydd; Eglwys Bethel, Caerffili; Eglwys Mynydd Seion, Casnewydd; Eglwys Bethlehem, Gwaelod-y-Garth ac Eglwys Bethel, Penarth. Y tro diwethaf i Gyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg gael eu cynnal yng Nghaerdydd oedd yn 1984, ond fe ymwelodd yr Undeb â'r Barri a Phenarth yn 1989.

Cyflwynir hynt a helynt pob un o'r saith capel sy'n estyn croeso i Undeb 2002 yn y llawlyfr hwn, gan ganolbwyntio sylw ar y cyfnod sy'n ymestyn o 1984 hyd at 2002. Cyfnod a welodd gryn ddatblygiad economaidd a chymdeithasol yn ardal lleoliad y saith capel. Bu datblygiad Bae Caerdydd fel cartref y Cynulliad Cymreig ac adeiladu'r Stadiwm Cenedlaethol yn fodd i fywiocáu bywyd a delwedd y brifddinas. Bu datblygiadau hefyd yng Nghasnewydd a'r Barri, gyda thref fwyaf Cymru'n cael ei dyrchafu'n ddinas, a'r adeiladu o gwmpas dociau'r Barri ac ar yr Ynys, ynghyd ag agoriad Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Morgannwg i gyd yn hwb i'r dref.

Bu cyfnewidiadau a datblygiadau ym mywyd pob un o'r saith eglwys hefyd, ac er y gellir dweud bod yr eglwysi hynny mor wahanol i'w gilydd â'r saith eglwys yn Asia Leiaf, a ddisgrifir ar ddechrau Llyfr Datguddiad Ioan, nid pwrpas y llawlyfr hwn yw graddoli teilyngdod cymharol yr eglwysi sy'n gwahodd! Digon yw dweud eu bod nhw bob un yn ceisio gwrando



ar "beth y mae'r Ysbryd yn ei ddweud wrth yr eglwysi" *(Dat. 2: 11)*. O'r safbwynt golygyddol y mae'n dda cael tystio i'r ffaith bod pob un o'r cyfranwyr i'r llawlyfr wedi llwyddo i ddal naws ac awyrgylch arbennig yr eglwys y perthynant iddi.

Os yw cyffro'n nodweddu'r ardal y dewch iddi at ddiwedd mis Mehefin fe welir nodweddion cyffro yn yr eglwysi sy'n eich gwahodd hefyd. Y mae dwy o'r eglwysi hynny, sef Ebeneser, Caerdydd a Bethel, Penarth yn cynllunio codi capeli newydd, tra bod Bethel, Caerffili wedi codi capel newydd ac wrthi hi ar hyn o bryd yn gwneud trefniadau i ymestyn y festri. Mae dwy eglwys arall, sef Eglwys Annibynnol y Barri ac Eglwys Minny Street, Caerdydd yn chwilio am weinidogion newydd, tra bod Bethel, Caerffili a Bethlehem, Gwaelod-y-Garth wedi sicrhau gwasanaeth gweinidogion newydd yn gymharol ddiweddar. Gallwn gytuno i gyd ag agwedd gadarnhaol y Dr John Hughes pan ddywed ar ddiwedd ei lith ar Eglwys Mynydd Seion: "y mae ysbryd newydd a bendith newydd ym Mynydd Seion heddiw". Hyderwn y profwch yr un ysbryd a'r un fendith yng nghroeso'r saith eglwys ac yng nghyfarfodydd Undeb 2002.

Wrth ddiolch o galon i bob un o'r cyfranwyr am olrhain hanes a chyflwyno awyrgylch yr eglwysi a bortreadir ganddynt hoffwn estyn diolch arbennig hefyd i Mrs Heulwen Cooper o Eglwys Annibynnol Gymraeg y Barri am gydlynu'r cyfan ar y cyfrifiadur ar gyfer y Wasg.

**Eifion Powell**

parhau i siarad am y posibiliadau. Weithiau yr ydym yn cydaddoli. Ar achlysuron eraill rydym yn mwynhau pethau cymdeithasol fel Bar Be Ciw ac yn y blaen. Mewn tref fel Casnewydd mae'n gwneud synnwyr i'r naill helpu'r llall.

**Y Ddolen**

Mae'r capel yn cyhoeddi cylchlythyr pob mis 'Y Ddolen' – sydd yn help mawr i rannu gwybodaeth am beth sydd yn mynd ymlaen, pwy sy'n dost ac ati, a hefyd i gadw mewn cyswllt â ffrindiau ac yn enwedig gyda chyn aelodau sydd wedi gadael y dref.

**Y Dyfodol**

Mae digon o bobl wedi rhagweld dirywiad Mynydd Seion yn y gorffennol ond mae'r defodau angladdol yn gynamserol! Er i'r Eisteddfod lwyddiannus a gynhelid ym Mynydd Seion yn y gorffennol ddod i ben y mae'r diwylliant Cymraeg yn parhau yma. Mae digon o fywyd yn yr hen achos yma ac fel mater o ffaith, mae digon o obaith am ddyfodol y capel ymysg yr aelodaeth. Mae ysbryd newydd a bendith newydd ym Mynydd Seion heddiw.

**John M Hughes**



## BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH



Y Parchedigion Gareth Evans Rowlands a T J Davies

Os ydych chi'n digwydd bod yn troi i golofn cyhoeddiadau eglwysig y "Western Mail" ar fore Sadwrn, yna fe fyddwch wedi sylwi mai Bethlehem yw'r un lle mae'r cyhoeddiadau ychydig yn "wahanol" i'r gweddill. Gan iddyn nhw ddechrau ymddangos tua'r un pryd ag y daeth y Parchedig T. J Davies atom yn weinidog, rhoddwyd iddo'r clod gan rai a dichon iddo gael y bai ar gam gan eraill. Y gwir yw mai ein cyhoeddwr rheolaidd, Rhodri Gwyn-Jones, sy'n eu dyfeisio – rhai ysgafn, rhai myfyrgar a phob un yn amserol. Yng ngeiriau Rhodri eu hunan:

"Ymdrech i gyflwyno bwrlwm a bywyd yr eglwys mewn cymal neu frawddeg yw'r nod wedi bod, ac yn anad dim mae wedi llwyddo i roi Bethlehem ar y map, a chyfeillion o bob cwr o Gymru mwyach yn gwybod am fodolaeth y lle. Mae wedi rhoi her i ambell un, a thestun pregeth i arall, a hwyrach wedi hyd yn oed godi cylchrediad y Western Mail !

Digwyddiadau, amgylchiadau, dywediadau, gweithgareddau, maent i gyd yn eu tro yn sbardun i'r cyhoeddiad, a gêm rygbi ryngwladol yn erbyn Ffrainc ar yr 16eg o Chwefror 2002 roddodd inni: *"Allez" fyddwch*

*chi bore 'fory tybed? Yma gyda ni a'n gweinidog, Y Parchedig Gareth Rowlands gobeithio. "Rendezvous" am 10:30 y bore."*

A dyna'r gyfrinach allan bellach, o enau gŵr y geiriau mwys ei hunan! Ond mae gennym sawl cyfrinach i'w rhannu ag Undeb yr Annibynwyr – megis cyfeiriadau at ganabis a thybaco'r Presbyteriaid yn yr gwynt â chyfnod gofalaeth ein cyn-weinidog, "T. J", gŵr a fu mor daer yn ymgyrchu yn erbyn o leiaf un o'r ddau! [Cyn i chi ofyn, mae lle i gredu nad oedd tybaco ar y rhestr ddu – yn enwedig os mai ym mhîb ei ben diacon yr oedd e. Mwy am hynny i gyd yn y man!]

Fe allwn ni gyfaddef bellach i'r golofn gyhoeddiadau fod mewn rhyw fath o "code" ar Suliau pan fu ambell gennad yn talu ymweliad â ni – yr adegau hynny pan ddaeth rhai i weld a oedden nhw awydd olynu "T.J." ym Methlehem. Gan ei fod ef wedi rhoi digon o rybudd i ni am ei awydd i gael ei ryddhau, fe fu Bethlehem yn loetran am gyfnod, yna fe gafodd yntau "ail-wynt yn ei hwyliau" ac fe ohirwyd ei ymddeoliad. Ond mae hanes galwad "T.J." yn y lle cyntaf yn rhan o chwedloniaeth y rhai oedd ym Methlehem yng nghanol yr wythdegau. Ar ôl ymadawiad y diweddar Barchedig Rhys Tudur am sir Feirionnydd, un bore Sul a'r gennad o Fethodist, T. J Davies, wedi gorffen ei oedfa, fe'i holwyd gan rywun, "Pam na ddowch *chi* atom ni, T. J?" Yr ateb a gafwyd oedd. "Sneb wedi gofyn i mi!" Fe'i gwahoddwyd yn y fan a'r lle a bu'n fugail ar Fethlehem am bymtheg mlynedd. Os nad ydych chi'n gyfarwydd â'i oedran, gwell egluro ei fod wedi dod i Fethlehem tua'r adeg pan fo meidrolion eraill yn ystyried ymddeol ac yn meddwl am ddim ond eu pensiwn! Roedd y cyfnod hwn yn "Ha Bach Mihangel" yn ei yrfa ac ar achlysur ei ymddeoliad go iawn, oedfa ohirwyd oherwydd iddo fod yn anhwylus am gyfnod, canodd un o'r aelodau gywydd ar thema'r "Ha' Bach" hwnnw a phwythwyd y gwaith mewn siampler cain gan Marian Evans:

**Ha Bach Mihangel**
(ar ymddeoliad T.J)

Mae naws Mai i'w anwes mwyn,
Hawlia ynom ail-wanwyn,
Mynnu sbonc mewn eisiau byw;
Mwynhad ddaw o'n mewn ydyw,
Ha' bach sy'n codi beichiau,
Hin braf tra'r dydd yn byrhau.



Eich ha bach, fu'n llonni'ch byd,
Fu'n haf i ninnau hefyd;
Yn eisiau'n heneidiau ni,
Mae ei wres am oroesi
'N ernes i'r gwanwyn nesa,
A bore'r Haul a barha.

Rhys Dafis 15.10.98

Mae'r "Ha Bach" hwnnw wedi cywain sawl ysgub. Dyma i chi dystiolaeth Rhys Powys, sydd ymhlith yr ieuengaf o'n diaconiaid (ac y mae dros ugain, cofiwch):

"Cnoc ar y drws gafodd Siân a finne - pâr ifanc, newydd briodi yn setlo mewn i'n ty cyntaf yng Nghaerdydd. Roedd wyneb y gŵr wrth y drws yn gyfarwydd. *"Beth ydych chi'n wneud fore Sul?"* oedd ei gwestiwn cyntaf. Ymbalfalu am ateb ... *"Dewch draw i Fethlehem, Gwaelod-y-Garth. Os nad ydych chi'n hoffi beth welwch chi yna fydd dim disgwyl i chi ddod to, ond os ych chi'n lico 'na, yna mae 'na groeso mawr i chi."* Y flwyddyn oedd 1989 a'r gŵr â'r gwahoddiad oedd T. J. Davies.

"Un o uchafbwyntiau y degawd a mwy sydd wedi pasio ers hynny oedd yr Wyl Ddrama, ddechre'r nawdegau, pan berfformiwyd tair o ddramau byrion R.G. Berry (cyn weinidog arall ym Methlehem, a fu yma am hannner canrif) yn festri'r capel. Falle fod "Gŵyl Ddrama" yn enw braidd yn uchel-ael ar y digwyddiad, ond fe lwyddwyd i roi bywyd newydd i dair drama hen-ffasiwn, a mwynhau cyfle prin i werthfawrogi dawn berfformio rhai o'r aelodau. Cast yn eu harddegau oedd gen i ac fe symudais y ddrama o'i lleoliad gwreiddiol yng Ngorllewin Cymru i wersyll ffoaduriaid yn Nwyrain Ewrop - er mwyn ceisio rhoi golau ehangach, a mwy cyfoes, iddi. Er mwyn helpu'r actorion ifanc i allu cydymdeimlo â sefyllfa eu cymeriadau fe'u harweiniwyd, mewn mygydau, lawr Cathedral Road i garej ddrafftiog Rhys a Ffion Harries cyn eu gadael i eistedd ar y llawr concrit yn y tywyllwch. Yno fe gawson nhw uwd oer i'w fwyta, a llaeth gafr i'w yfed, cyn rhedeg trwy'r ddrama yn y fan a'r lle. Tybed a drosglwyddwyd peth o naws yr ymarfer cofiadwy hwnnw i'r perfformiad yn y festri? Wn i ddim, ond fe gawson ni lot fawr o hwyl - ac mae gen i ryw deimlad i fi weld gwên fach yn lledu ar wefusau y darlun o R.G. Berry sydd yn hongian ar wal y festri wrth iddo wylio llond lle o aelodau a chyfeillion ei gapel yn mwynhau y perfformiadau newydd, egniol hynny o'i waith."

Yn ystod holl gyfnod bugeiliaeth y Parch T. J. Davies, yr oedd yn sicr o leiaf un o'i aelodau oedd yn hŷn na'r gweinidog ei hunan – un a fu'n ddylanwad mawr ar Fethlehem am y rhan helaethaf o'r ganrif gan iddo fyw am gant namyn un o'i blynyddoedd. Y gŵr hwnnw oedd y diweddar T. W. Thomas. Yn enedigol o Waelod-y-Garth, treuliodd dalp helaeth o'i oes ym Mhentyrch cyn setlo yn ei flynyddoedd olaf yn Radur. Fe'i ganed fisoedd ar ôl gwawrio'r ugeinfed ganrif ym 1900 a bu farw ychydig cyn gweld troad y ganrif newydd - gan aros a'i feddwl fel raser tan y diwedd. Bu'n ffyddlon i'r oedfaon hyd y diwedd bron ac yn arbennig o gefnogol i fugeiliaid Bethlehem – R. G. Berry, Gwilym Morris, Ifor Rees, Rhys Tudur a T. J. Davies. Yn ei gyfrol "Ysgub o'r Wisgon" dywed T. J. Davies amdano:

"Ni raid i chi ofyn a yw T W yn yr oedfa. Fyddwch chi fawr o dro cyn ei glywed yn porthi'n dawel, urddasol. Rhyw ochenaid o gynhaliaeth ac anogaeth, a gododd aml un eiddil yn goncwerwr mawr. Ac os bydd hwyl ar bethe, bydd yn dyblu'r gân er mawr ddryswch i'r organydd ar dro! Os gofyn rhywun, 'Ble'r aeth yr Amen?' yr ateb yw, 'I Fethlehem, Gwaelod-y-Garth'. Sonia am rhyw gyfaill uniaith Gymraeg yn dod i'r Gwaelod i weld teulu a oedd mewn galar. Ni fedrai rheiny y Gymraeg, a dyma hwn yn gofyn, *"Is this where the corpse do live?"* Ni ellid gofyn cwestiwn fel 'na am T W mewn oedfa nac oddi allan iddi!"

Ef, yn anad neb, oedd y bont rhwng yr hen draddodiadau a'r adfywiad a ddaeth yn sgîl y newydd-ddyfodiaid i Fethlehem. Ym 1994, cyhoeddwyd caset o'i atgofion am yr ardal gan Amgueddfa "San Ffacan" (fel yr ynganai ef yr enw) ac mewn seibiau myfyrgar rhwng ambell sugnad o'i dybaco "Presbyterian Mixture", (hoff faco Gladstone!) ail-adroddodd sawl un o'r hanesion wedi hynny i rai oedd â'r amser i wrando.

Dyna egluro ein cyfeiriad at y tybaco - gadewch i ni egluro, o'r diwedd, y cyfeiriad at y canabis a hynny yng ngeiriau Alwyn Harding Jones, pensaer o ddiacon sydd wedi arbenigo mewn adfer hen adeiladau, gan gynnwys eglwysi urddasol a phlasdai gosgeiddig. Hen gragen digon cyffredin sydd i Fethlehem o'i chymharu ag ambell i deml mwy rhwysgfawr, ond roedd Alwyn wedi gweld rhinweddau'r hen le ymhell cyn i "Cadw" wthio nodyn bach nawddoglyd drwy'r drws i'n hysbysu bod Bethlehem bellach ar eu rhestr henebion. Onid oedd hi ar flaen rhestr y ffyddloniaid lleol ymhell cyn i Cadw na'u rhagflaenwyr sylwi ar ein bodolaeth? Ond roedd ambell gyfarwyddwr ffilm wedi dechrau ein llygadu ymhell o flaen Cadw, felly yn ôl at Alwyn a hanes y canabis:





"Mae deunaw mlynedd a mwy wedi mynd heibio ers ffilmio'r ddrama 'Y Gosb' yma, gan ddefnyddio'r Mans a'r capel yn helaeth. Fe gofiaf i Bryn Fôn fod yn y ddrama, yn cuddio'r chwyn bondigrybwyll tu ôl i'r organ – roedd yr offeryn bryd hynny ar ganol y capel, o flaen y set fawr. Roedd hon yn ddrama reit ysgytwol gan Emyr Humphreys (un o'n cyn aelodau) gyda'r diweddar Guto Roberts fel gŵr oedd yn gorfod treulio cyfnod anodd mewn carchar tros ei egwyddorion. Yn achlysurol, mae ambell i gwmni teledu arall wedi llogi'r adeiladau ers hynny – rydym yn gyfleus o agos i Gaerdydd, mewn man heb fod yn eithriadol o brysur. Angladd Llew yn Pobol y Cwm oedd y tro diwethaf i ni fod ar y bocs, gyda llaw, ond dim canabis y tro hwnnw!"

Gan Alwyn hefyd y mae'r cofnod llawn o'r defnydd tu allan i oriau addoli sy'n cael ei wneud o'r adeiladau:

"Braf yw cael croesawu'r gymdeithas ehangach, gan gynnwys yr ysgol leol, i Fethlehem. Yn ogystal â'n gwasanaethau ar y Sul, gwasanaeth y bore yn y capel, yr Ysgol Sul yn y festri a CAIB (Cymdeithas Annibynwyr Ifanc Bethlehem) gyda'r hwyr. Cynhelir Cylch Meithrin yn y Festri bob bore o'r wythnos, gydag amrywiol weithgareddau yn dilyn yn y pnawn a'r hwyr. Ar brynhawn Mawrth mae Cwrdd Merched, Bethlehem, yn cyfarfod unwaith y mis ac fe ddowch ar draws Rhys Dafis gyda'i ddosbarth "Nyddu'r Cynganeddion" gyda'r nos. O'r dosbarth hwn y cododd tri thîm Talwrn y Beirdd ar y radio – Y Dwrlyn, Yr Awyr Iach ac Aberhafren. Eleni, mae yna drefniadau ar y gweill i adfer nos Fawrth hefyd ar gyfer noson o fyfyrdodau wythnosol yr eglwys. Ar brynhawn Mercher mae'r Cylch Meithrin yn cyfarfod eto ac mae Clwb Ti a Fi ar

brynhawn Iau. Mae pnawn Gwener a dydd Sadwrn yn rhydd fel arfer, ar wahan i'r adegau pan ddarperir y capel ar gyfer priodas. Hefyd mae Ysgol Gynradd Gwaelod-y-Garth (ar letraws i'r ffordd o'r capel) yn cael benthyg y capel a'r Festri ar gyfer eu heisteddfod, gwasanaeth Diolchgarwch a charolau Nadolig. Ychwanegwch at hyn gyfarfodydd Diaconiaid, ambell i ymarfer côr, grwp roc lleol a phractis cwmniau dramau Tafod Elai, pwyllgor y Cylch Meithrin ac amrywiol gyfarfodydd eraill, yna pan restrwch chi'r holl ddigwyddiadau, fe welwch nad adeilad 'un-diwrnod-yr-wythnos' yw Bethlehem!"

Mae hi bron yn ddwy flynedd bellach ers i ni weld sefydlu y Parchedig Gareth Evans Rowlands yn weinidog arnom. Bu rhai o'r swyddogion ar deithiau meithion dan lenni'r nos i Geredigion i'w gymell i ddod i'n plith. Ein gofid pennaf oedd ein diffyg profiad ym maes galw bugail - wedi'r cwbl, dim ond pump oedd Bethlehem wedi ei gael yn y ganrif flaenorol, gan gynnwys un arhosodd am hanner can mlynedd! Erbyn gweld, yr oedd Gareth ei hunan yr un mor nerfus ond mae o wedi dysgu dygymod yn rhyfeddol â ni, chwarae teg! Fe roddwn ni'r gair olaf i'n bugail:

"Pan gefais i'r gwahoddiad i ddod yn weinidog i Fethlehem, Gwaelod-y-Garth, ar y pryd roeddwn rhwng dau feddwl, am fod 'sgidiau T.J Davies yn rhai anodd i'w llenwi ac am fod yr eglwys ar gyrion Caerdydd, a minnau heb ddychmygu y byddwn byth yn gweinidogaethu mor bell i'r de o dan Aberystwyth. Beth bynnag, wedi cytuno i gwrdd â swyddogion Bethlehem mi dderbyniais yn syth oherwydd eu bod i gyd mor ifanc, mor 'easy going' ac yn awchu i weld ffyniant yn eu heglwys - ffyniant a ddeuai wrth gydweithio, rhoi-a-derbyn, 'trial and error', heb unrhyw rygnu na bustachu.

Felly dyma ddechrau ar fy ngweinidogaeth ym Medi 2000 ac yn wir, felly mae pethau wedi bod ers i mi ddechrau. Dwi wedi cael yr aelodau yn braf a chartrefol, yn gweithio heb eu hail yn yr eglwys er fod pawb mor brysur ar adegau. Mae'r Ysgol Sul yn ffyniannus dros ben a pheth braf ydi cael rhannu mewn oedfaon hefo'r plant a'u teuluoedd a'u cael mor barod i gymeryd rhan yn yr holl weithgaredd. Mae CAIB sef; Clwb Annibynnol Ieuenctid Bethlehem, yn dal ei dir yn dda a byddwn yn mwynhau nosweithiau Sul hynod ddifyr ac adeiladol am 6.00 yr hwyr.

Mae'r ieuenctid yn hawdd ymwneud â nhw - yn barod i siarad a thrafod syniadau, yn agored eu barn a chefnogol i bob arbrawf. Mae criw hŷn





Y plant a'r bobl ifanc

hefyd sydd yn y colegau yn galw 'nôl yn gyson a chadw cysylltiad. Peth braf i weinidog ifanc yw cael y criw yma mor hawdd i wneud â nhw a mor barod i fod yn rhan o bethau, yn enwedig ar achlysuron arbennig fel y Nadolig. Mae na arbrofi wedi bod mewn gwahanol ffyrdd a da ydi dweud fod pawb yn gadarnhaol a pharod i dderbyn amrywiaeth mewn oedfaon a gweithgaredd.

A son am weithgaredd mae ymwybyddiaeth gymdeithasol wych yma ond fe allwn hyd yn oed wella ar hynny maes o law. Cydweithir rhwng yr ysgol leol a chymdeithasau fel Clwb y Dwrlyn ac ati. Derbyniais 13 o ieuenctid yn gyflawn aelodau y llynedd, yn fy ail flwyddyn, a 'dwi wedi bedyddio nifer yn barod a bu yma un briodas.

Felly, mae digon yn digwydd yn ein heglwys ni yma ym Methlehem a 'dwi wedi ennill gwraig eithriadol ddeniadol, gefnogol a phopeth 'ol' arall! Dyna ydi eglwys dda ac eglwys felly ydi Bethlehem - hen griw iawn ydyn nhw a swyddogion gwerth chweil. Dwi'n newydd o hyd, ond os gallwn ni fynd ymlaen gan wella eto ar y rhagoriaethau a dileu unrhyw wendidau, yna fe fyddwn yn tystio yma ymhell i'r unfed ganrif ar hugain!"

**Ifan Roberts**